

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD DYDD GWENER, 17 MEHEFIN 2022

Presennol: **Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Neville Evans
Cyng. John Ifan Jones
Cyng. Dafydd Roberts
Cyng. Ken Taylor
Cyng. Robin Williams

Cyngor Gwynedd
Cyng. Anne Lloyd Jones
Cyng. Gruffydd Williams
Cyng. Paul Rowlinson
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Rhys Tudur
Cyng. Dafydd Davies

Swyddogion:
Robyn Jones *Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (CSYM)*
Dewi Francis Jones *Prif Swyddog Cynllunio (CSYM)*
Gareth Jones *Pennaeth Cynorthwyol, Amgylchedd (CG)*
Rebeca Jones *Rheolwr Polisi Cynllunio (GPCC)*
Heledd Jones *Arweinydd Tîm (GPCC)*
Bob Thomas *Arweinydd Tîm (GPCC)*
Ffion Madog Evans *Uwch Reolwr Cyllid (CG)*

1. ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Robin Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am y cyfnod 2022 – 2023.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Dafydd Meurig fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am y cyfnod 2022 – 2023.

3. YMDDIHEURIADAU

Cyng. June Jones

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

5. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

6. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2022 fel rhai cywir.

7. CYFRIFION TERFYNOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Cyflwynwyd adroddiad gan Ffion Madog Evans (Uwch Rheolwr Cyllid) a oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd ar ddatganiad cyfrifon blynyddol ar gyfer y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd. Gan fod trosiant y Gwasanaeth yn is na £2.5m, fe ystyrir yn gorff Llywodraeth Leol lai o faint, gan hynny mae gofyn cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru i gwrdd â'r gofynion statudol. Nodwyd mai Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Arweiniol sydd a'r cyfrifoldeb o gyflawni'r cyfrifoldeb o gyfrifo, adrodd ac archwilio'r cyfrifon.

Amlygwyd fod y drefn o adrodd ar y cyfrifon yn dilyn amserlen dynn - gyda gofyniad fod hynny yn cael ei wneud cyn diwedd mis Mai. Gan ei fod yn flwyddyn etholiad, nid oedd hynny'n bosib. Er bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau, eu hawdurdodi gan y Pennaeth Cyllid ac wedi eu cyflwyno i'r Archwilwyr cyn diwedd Mai, dyma oedd y cyfle cyntaf i'w hadrodd i'r Pwyllgor.

Cyfeiriwyd at Atodiad A sydd yn cynnwys yr adroddiad alldro ac yn egluro sefyllfa derfynol incwm a gwariant refeniw'r Gwasanaeth ar gyfer 2021/22. Amlygwyd fod y gyllideb i'w weld yn y golofn gyntaf gyda'r gwariant yn yr ail, yna mae posib archwilio'r gorwariant neu'r tanwariant yn y drydedd golofn. Nodwyd fod y gwariant am 2021/22, £40,185 yn is na'r gyllideb oedd ar gael, ac felly bu modd lleihau'r cyfraniad gofynnol i Gyngor Gwynedd a Môn i £223,000 yn hytrach na £243,000 fel oedd wedi ei bennu yn y gyllideb, sydd yn lleihad o £20,000 na'r gyllideb wreiddiol.

Wrth edrych yn fanylach ar rai o'r penawdau gwariant, y prif bwytiau i'w nodi yw:

- Fod yna orwariant ar gyflogau o £10,755 oherwydd y cynnydd chwyddiant o 1.75% a derfynwyd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol.
- Cludiant - y darlun yn 2021/22 yn gyson efo'r darlun 2020/21, gyda sgil effaith Covid yn amlwg o ran lai o deithio a mwy o gyfarfodydd rhithiol.
- Gwariant bychan hefyd ar gostau rhedeg y Gwasanaeth o'i gymharu efo'r gyllideb.
- Tan wariant sylweddol yn gysylltiedig hefo'r broses o baratoi'r Cynllun.
- Targed arbedion o £10,000 sydd yn parhau heb ei wireddu ers rhai blynyddoedd bellach. Angen ystyried ceisio ei ddiddymu o'r arbedion e.e. ar gostau cludiant i gael gwared â'r targed arbedion.

Nodwyd fod y cyfrifon eisoes wedi eu hanfon i sylw Archwilwyr Allanol, Swyddfa Archwilio Cymru. Dim ond os bydd newidiadau yn dilyn yr archwiliad hynny bydd y cyfrifon yn cael ei ail-gyflwyno er sylw'r Pwyllgor i'w cymeradwyo.

Gofynnwyd fod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer 2021/22 a bod y Cadeirydd yn arwyddo'r ffurflen electroneg ar dudalen 15 o'r

pecyn.

Materion a Godwyd

- Ymddangos fod yna swm aruthrol wrth gefn. Os nad oes angen cymaint o arian wrth gefn, oes posib trosglwyddo'r arian hynny i Adrannau hynny sydd wir ei angen.
- Gofynnwyd am y tanwariant yn gysylltiedig â'r broses o baratoi'r Cynllun a holwyd os oedd hynny gan fod yna ddisgwyliad y byddai'r broses o Adolygu'r Cynllun wedi cychwyn erbyn hyn.
- Hefo'r arian wrth gefn, petai'r Cynghorau yn penderfynu paratoi Cynlluniau ar wahân a fyddai'r arian wrth gefn yn cael ei rhannu rhwng y Cynghorau.
- Nodwyd y fantais o gynnal cyfarfodydd rhithiol o ran amser y Cynghorwyr ac yr arbedion ariannol.

Ymateb

- Cadarnhawyd fod y cronfeydd wedi hel dros y blynyddoedd o danwariant. Hanner yn gronfa Môn a hanner Wynedd. Cyfrifon yn newid dros y blynyddoedd a hynny'n aml yn seiliedig ar y cam sydd wedi ei gyrraedd yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun. Cost ar ddiwedd y broses o baratoi Cynllun yn fwy yn enwedig yn ystod cyfnod o gynnal Archwiliad cyhoeddus. Ymhellach, yn ddiweddar mae defnydd wedi ei wneud o arbenigedd mewnol y Gwasanaeth yn hytrach na chomisiynu darnau o waith allanol. Angen cadw mewn cof y bydd yna gostau ychwanegol ynghlwm a'r broses o baratoi Cynllun newydd.
- O ran y tanwariant ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, mae'n bwysig cael y Cyllid wrth gefn er mwyn gallu ymateb i anghenion ac o bosib gallu comisiynu gwaith allanol pe fyddai angen.
- Cadarnhawyd mai dyna fyddai'r trefniant.
- Nodwyd y sylw.

Penderfyniad

Derbyniwyd a chymeradwywyd y 'Cyfrif Incwm a Gwariant refeniw 2021/2022 ynghyd a'r 'Ffurflen Flynyddol' ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022. Cytunwyd y Cadeirydd i lofnodi'r cyfrifon yn electroneg, gan gadarnhau ei bod wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.15 y.b.

CADEIRYDD